Canllawiau Sylfaenol i Ohebydd y Wasg

- Gohebydd y Wasg sydd yn gyfrifol am hysbysu ac hyrwyddo gweithgareddau a llwyddiannau'r clwb yn y wasg leol.
- Dylid ysgrifennu adroddiad i'r papur bro lleol yn rheolaidd, yn dynodu llwyddiannau'r clwb a'r aelodau, yn reolaidd. Gellir hefyd gynnwys unrhyw newyddion am briodasau, genedigaethau a.y.b os y dymunir.
- Cofiwch nodi unrhyw weithgareddau bydd yn digwydd yn y dyfodol er mwyn hysbysu ffrindiau, cyn aelodau a darpar aelodau y clwb, ynghyd â chanlyniadau a newyddion am weithgareddau sydd eisioes wedi digwydd.
- Os oes yna achlysur arbennig, megis dathliad neu godi arian, gellir danfon adroddiad a llun i'r Cambrian News.
- Gweithiwch yn agos gyda Swyddogion eraill y clwb, yn enwedig y Cadeirydd, Ysgrifennydd a Ysgrifennydd Cofnodion, i gasglu a crynhoi gwybodaeth.
- Gohebydd y Wasg sydd hefyd yn gyfrifol am hysbysu ac hyrwyddo gweithgareddau a llwyddiannau'r clwb drwy ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol, megis tudalen gyhoeddus ('Page') ar Facebook, a thrwy gyfri Twitter.
- Cofiwch gadw copi o'ch adroddiadau i roi yn y llyfr lloffion!